Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BMA
Cymru Wales

GIG CYMRU
NHS WALES

Eich Cyf/Your Ref:
Ein cyf/Our ref: qA1263705

12 Gorffennaf 2023

**RHEOLIADAU'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CONTRACTAU GWASANAETHAU MEDDYGOL CYFFREDINOL) (CYMRU) 2023**

Yn dilyn ein llythyr dyddiedig 3 Ebrill 2023 yn eich hysbysu am newidiadau arfaethedig i'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, dyma adroddiad cryno ynglŷn â'r ymateb i'r ymgynghoriad anffurfiol ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023.


**Paul Casey**

Dirprwy Gyfarwyddwr
Llywodraeth Cymru

**Gareth Oelmann**

Cadeirydd
GPC Cymru

**Lisa Dunsford**

Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyflawni,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

# YMGYNGHORIAD ANFFURFIOL AR REOLIADAU'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CONTRACTAU GWASANAETHAU MEDDYGOL CYFFREDINOL) (CYMRU) 2023 – ADRODDIAD CRYNO

Gorffennaf 2023

**Cyflwyniad a Chefndir**

1. Roedd yr ymgynghoriad yn rhoi gwybod i bersonau am newidiadau arfaethedig i'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a ddelir rhwng contractwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC) a Byrddau Iechyd Lleol.

2. Bydd hyn yn arwain at ddirymu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004, a'u disodli gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023"). Bydd Rheoliadau 2023 yn pennu'r fframwaith ar gyfer contractau GMC o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006, Rhan 4: Gwasanaethau Meddygol. Disgwylir i Reoliadau 2023 ddod i rym ar 1 Hydref 2023.

3. Bydd y contractwr GMC yn cynnal contract GMC Unedig cyffredin ("Contract Unedig") â'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol i gleifion, a bydd yn hawdd iddynt allu dangos lefelau uchel o safonau ansawdd a gofal yn erbyn y contract.

4. Nod y Contract Unedig newydd yw ailddiffinio'r cynnig GMC craidd, gan fireinio a symleiddio'r model contractau, cadw mewn cof yr hyn a ddysgwyd o'r pandemig a chaniatáu i Wasanaethau Meddygol Cyffredinol ganolbwyntio ar y gweithgareddau hynny a all gael eu gwneud gan GMC a phractisau unigol, ac a ddylai gael eu gwneud yn unig mewn GMC ac ar lefel practis unigol.

5. Mae'r Contract Unedig yn cyfuno gwasanaethau hanfodol, gwasanaethau ychwanegol, modiwl porth y gwasanaeth diabetes estynedig, ac elfennau o'r Fframwaith Ansawdd a Gwella a ystyrir yn wasanaethau GMC craidd.

6. Bydd y Contract Unedig yn cynnwys sgôp ehangach ar gyfer gwasanaethau craidd i'r claf. Yn ogystal â chynnwys darpariaethau yn Rheoliadau 2023 ar gyfer datblygiadau polisi a chyfeiriadau statudol wedi'u diweddaru, y polisi sylfaenol yw Diwygio Contractau Gofal Sylfaenol, sy'n creu Contract Unedig newydd ar gyfer pob Practis Meddyg Teulu.

**Manylion yr Ymgynghoriad**

7. Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol, wedi'i dargedu at randdeiliaid, ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) Cymru 2023 rhwng 03 Ebrill 2023 a 30 Ebrill 2023. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei rhoi hefyd ar dudalen we Rheoli Practis Cyffredinol ar wefan Llywodraeth Cymru.

8. Roedd modd anfon ymatebion drwy e-bost at GMSContract@llyw.cymru.

9. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i gyfranogwyr wneud sylwadau ar gynnwys Rheoliadau arfaethedig 2023.

## Crynodeb o'r Ymatebion

10. Cafwyd 8 o ymatebion i’r ymgynghoriad ar Reoliadau 2023.

11. Dyma ddadansoddiad o’r ymatebwyr a gyflwynodd ymatebion -

- 1 Bwrdd Iechyd
- 1 Cwmni
- 1 Corff Cynrychioli
- 1 Gymdeithas Broffesiynol
- 1 Elusen
- 3 Practis Meddyg Teulu

## Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

12. Roedd yr ymgynghoriad anffurfiol hwn yn gofyn yn benodol am sylwadau ar y newidiadau arfaethedig a drafodwyd i'r contract GMC a fydd yn golygu y bydd Rheoliadau 2023 yn dod i rym ar 1 Hydref 2023.

13. Codwyd sawl mater nad oedd yn cael effaith uniongyrchol ar bwnc yr ymgynghoriad. Rydym wedi nodi'r materion hyn ond nid ydym wedi eu hystyried mewn unrhyw fanylder yn y crynodeb hwn.

14. O fewn eu hymatebion, cyflwynodd sawl ymatebydd gynigion ar gyfer newidiadau i’r contract GMC yn y dyfodol. Awgrymwn yn dylai’r ymatebwyr hynny gyflwyno'r cynigion eto i GMSContract@llyw.cymru gan ofyn am iddynt gael eu hystyried fel rhan o drafodaethau yn y dyfodol ar y contract GMC.

15. Os nad yw'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr ymatebion gan rai practisau meddygon teulu wedi cael eu hateb, awgrymwn eu bod yn cysylltu â'u Bwrdd Iechyd Lleol i ofyn am eglurhad ar y cwestiynau penodol hynny.

16. Felly, mae'r crynodeb hwn yn ymdrin â'r ymatebion uniongyrchol mewn perthynas â Rheoliadau 2023. Er na all ymdrin â phob sylw/cwestiwn, mae'n ceisio cyfleu’r themâu allweddol.

## Cyffredinol

17. Ar y cyfan, croesawyd y newidiadau arfaethedig o ran cyfuno’r gwasanaethau craidd ac egluro'r gwasanaethau y gall cleifion ddisgwyl eu derbyn gan feddygon teulu.

## Gwasanaeth Estynedig dan Gyfarwyddyd ar gyfer Diabetes

<u>Barn ymatebwyr</u>

18. Cododd rhai ymatebwyr fater y Gwasanaeth Estynedig dan Gyfarwyddyd (DES) ar gyfer Diabetes yn symud i’r Gwasanaethau Unedig, ynghyd â’r cyllid.

19. Dywedodd un ymatebydd - "Mae'n anodd gwneud sylw ar hyn heb fanylion y ffrwd gyllido. A fydd safonau'n cael eu gosod ar gyfer taliadau ariannol, gan fod safon y ddarpariaeth gwasanaethau gofal sylfaenol yn amrywio ar draws practisau?".

20. Dywedodd ymatebydd arall - "Er mwyn rheoli'r cleifion hyn yn effeithiol, mae angen darparu adnoddau sydd wedi'u hariannu'n iawn. Roedd y DES diabetes yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at ddarparu fframwaith ariannol a oedd yn cydnabod hyn. Mae'n peri pryder bod hwn yn cael ei amsugno i gyllid craidd heb fecanwaith ar gyfer cynnydd mewn taliadau sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn llwyth gwaith. Ar ben hynny, mae'n amlwg unwaith eto na fydd ymgais i wobrwyo contractwyr GMC am y gwaith mwy sylfaenol o wella canlyniadau diabetes cleifion. Dylai practisau sy'n llwyddo i wrthdroi diabetes cleifion drwy gyngor ar ffordd dda o fyw gael eu gwobrwyo am wneud hynny. Mae hyn yn dda i'r claf, ac yn dda iawn i'r gyllideb iechyd gan ei fod yn osgoi meddyginiaeth yn ogystal â holl gymhlethdodau diabetes. Ar hyn o bryd, mae practis sy'n cyflawni hyn yn cael ei gosbi, oherwydd bod cymhelliant ariannol i gadw cleifion ar y gofrestr diabetes.".

21. A dywedodd ymatebydd arall: "Gwasanaethau unedig – symud gwasanaethau hanfodol ac ychwanegol 2004 yn ogystal â modiwl porth DES Diabetes 2017 at ei gilydd. A fydd yr incwm yn cael ei dorri i lawr ymhellach er mwyn tryloywder? Er enghraifft, sut bydd y DES Diabetes yn cael ei gyfrifo? Yn ôl incwm hanesyddol ar gyfer y practis neu yn ôl cyffredinrwydd cyfartalog? A fydd y ffigurau hyn yn cael eu hadolygu yn sgil y cynnydd a ragwelir yn nifer yr achosion o T2DM sy'n gysylltiedig â gordewdra?".

<u>Ymateb</u>

22. I gadarnhau, dim ond y Modiwl Porth Diabetes o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Gofal Diabetes Mellitus Math 2 i Oedolion) (Gwasanaeth Estynedig dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2017 fydd yn trosglwyddo i Wasanaethau Unedig. Bydd Byrddau Iechyd Lleol yn dal i allu comisiynu Modiwlau 1 i 4 o'r Gwasanaeth Estynedig ar gyfer Gofal Strwythuredig Darbodus i Oedolion â Diabetes Math 2.

23. Does dim cymhelliant ariannol i gadw cleifion ar gofrestr diabetes. Symudodd y cofrestrau clefydau o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella (QAIF) a'r cyllid dangosyddion i swm craidd yn 2021/22. Symudodd y dangosyddion clinigol sy'n weddill o QAIF i swm craidd ym mis Hydref 2022.

24. Bydd y cyllid a fydd yn trosglwyddo i swm craidd ar gyfer y Modiwl Porth Diabetes yn cael ei drafod fel rhan o'r negodiadau teirochrog sydd i ddod ynghylch y contract GMC.

**Imiwneiddiadau**

<u>Barn ymatebwyr</u>

25. Dywedodd ymatebydd - "Mae imiwneiddiadau yn cael eu rhestru yn y contract unedig a gallai'r gwasanaethau ategol fod yn ddryslyd hefyd o ran y rhesymeg pam y dylid trin y rhain yn wahanol."

Ymateb

26. Mae brechiadau ac imiwneiddiadau o fewn y contract GMC yn eithaf cymhleth. Bydd y Brechiadau ac Imiwneiddiadau Plentyndod sy'n wasanaethau ychwanegol ar hyn o bryd yn y contract GMC, ac sydd felly'n cael eu darparu gan bob practis meddyg teulu (os nad ydynt wedi optio allan o ddarparu'r gwasanaeth hwnnw) yn symud i Wasanaethau Unedig heb yr opsiwn i optio allan o'r gwasanaeth hwnnw. Bydd y cyllid yn aros yr un fath gan y darperir ar gyfer ariannu'r gwasanaethau ychwanegol hyn drwy swm craidd.

27. Ar hyn o bryd mae gennym rai rhaglenni brechu ac imiwneiddio sy'n cael eu darparu drwy Wasanaethau Estynedig dan Gyfarwyddyd.  Bydd enw'r gwasanaeth hwn yn newid i Wasanaethau Atodol dan Gyfarwyddyd.

Barn ymatebwyr

28. Dywedodd ymatebydd arall - "Imiwneiddiadau - a oes symudiad tuag at gael gwasanaeth imiwneiddio cenedlaethol a fydd yn golygu nad yw imiwneiddio rhag y ffliw ac ati yn digwydd mewn meddygfeydd? Yn amlwg, byddai goblygiadau i hyn o ran llwyth gwaith ac incwm".

Ymateb

29. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i'r drefn o ddarparu brechiadau ffliw yn destun trafodaethau helaeth gyda'r Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru).

**Mynediad**

Barn ymatebwyr

30. Derbyniwyd nifer o sylwadau hefyd mewn perthynas â mynediad.
Gofynnodd un ymatebydd - "Byddai hefyd yn ddefnyddiol deall a oes gan gleifion yr hawl i drefnu apwyntiad yn benodol gydag ymarferydd meddygol cyffredinol ymlaen llaw.".

Ymateb

31. O fewn Rheoliadau 2023, rhaid i gontractwr GMC roi gwybodaeth gynhwysfawr ar sut y gall cleifion ofyn am ymgynghoriad brys, arferol a manylach, yn ogystal â chyhoeddi  gwybodaeth i gleifion ar sut i ofyn am ymgynghoriad drwy wefan y practis.  Mae'r gofyniad mynediad a nodir yn y Cyfarwyddydau cyfredol i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad o Hawlogaethau Ariannol 2013 (SFE) yn nodi -

> "All patients telephoning the practice are to have their calls received by a standard recorded message, and subsequently calls are answered with appointments made available for advanced booking each day with declaration confirming that every patient contact is supported throughout the day. Patients will be offered an appropriate consultation, whether urgently or through advanced booking consistent with the patient's assessed clinical need,

without the need for the patients to contact the practice again. Where clinically appropriate, patients may be signposted to another appropriate service.”.

32. Felly nodir, os yw contractwyr GMC yn cymryd rhan yn y safonau mynediad fel y nodir yn yr SFE, bydd angen clinigol asesu'r claf yn penderfynu gyda pha weithiwr gofal iechyd proffesiynol y bydd yr ymgynghoriad manylach yn digwydd.

Barn ymatebwyr

33. Sylw arall ar fynediad oedd - "Yn adran 23 nodir gofynion mynediad - byddai'n ddefnyddiol ailadrodd bod rhaid ei gwneud yn bosibl i gleifion wneud apwyntiad yn bersonol - er mwyn sicrhau nad yw'r rhai nad oes ganddynt fynediad at ffôn neu'r cyfrifiadur dan anfantais sylweddol. Byddai hefyd yn ddefnyddiol egluro a yw'r cynnig digidol ar gyfer yr holl oriau craidd neu a yw’n dderbyniol ar gyfer awr y dydd, dyweder.”

Ymateb

34. Wedi'i gynnwys o fewn Rheoliadau drafft 2023 mae gofyniad i gontractwyr GMC sicrhau bod eu drysau ar agor i brif safle’u practis i alluogi i gleifion gael mynediad corfforol i'r safle rhwng 8.30am a 6.00pm. Yn ogystal, rhaid i gontractwr GMC ateb ei ffonau trwy gydol yr oriau craidd, h.y. 8.00am i 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener oni bai bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi cytuno ymlaen llaw i ddefnyddio neges peiriant ateb mewn amgylchiadau eithriadol. Bydd y mesurau hyn yn galluogi pobl i wneud apwyntiad yn bersonol neu dros y ffôn a byddant yn cynorthwyo'r unigolion hynny sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Bydd y geiriad ynghylch y cynnig digidol yn cael ei egluro o fewn Rheoliadau 2023 i ddweud bod rhaid i gontractwr GMC sicrhau bod dull digidol ar waith i gleifion ofyn am apwyntiadau nad ydynt yn rhai brys neu alwad yn ôl a bod y trefniadau llywodraethu angenrheidiol ar waith ar gyfer y broses hon.

Barn ymatebwyr

35. Gofynnodd ymatebydd arall am newid i un o'r gofynion mynediad - "....byddem hefyd yn gofyn am newid yn adran 22 sy'n ymwneud â mynediad. Un o'r gofynion mynediad yw ‘sicrhau bod cleifion a chartrefi gofal yn gallu archebu presgripsiynau rheolaidd drwy ddatrysiad digidol’. ... byddem yn gofyn i hyn gael ei newid i 'sicrhau bod cleifion, fferyllfeydd cymunedol sy'n archebu presgripsiynau ar ran cleifion, a chartrefi gofal yn gallu archebu presgripsiynau rheolaidd trwy ddatrysiad digidol'."

Ymateb

Ymdrinnir â’r sylw hwn isod.

**Rhagnodi Electronig**

Barn ymatebwyr

36. At ei gilydd, croesawyd cynnwys rhagnodi electronig yn Rheoliadau 2023. Roedd gan un ymatebydd bryder: "Rhagnodi electronig - pryder i feddygon

dosbarthu yw y bydd cyflwyno hyn yn cael effaith negyddol ar nifer y cleifion sy’n cael presgripsiynau. Mae elw o roi meddyginiaethau presgripsiwn yn dal yn hynod bwysig o ran sybsideiddio practisau gwledig sydd â chostau uwch oherwydd mwy nag un safle ac ati.”.

Ymateb

37. Ni ragwelir y bydd cyflwyno rhagnodi electronig yn cael effaith negyddol ar feddygon dosbarthu. Bydd gan feddygon dosbarthu rôl i'w chwarae o hyd wrth ddosbarthu meddyginiaethau oherwydd natur wledig y feddygfa a’r ffaith nad oes fferyllfa gymunedol wrth law.

**Cydweithfeydd Meddygon Teulu**

Barn ymatebwyr

38. Gofynnwyd un cwestiwn penodol - "Ydy'r contract yn cynnwys cyllid ar gyfer presenoldeb meddygon teulu mewn cyfarfodydd cydweithfeydd meddygon teulu?".

Ymateb

39. Ydy – roedd hyn yn ofyniad o dan y maes rhwydwaith clystyrau yn y Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella. Symudodd y dangosyddion parth clwstwr i’r contract GMC ar 1 Hydref 2022. Trosglwyddwyd y 100 pwynt priodol – sy'n cyfateb i £7.2m i’r swm craidd ar 1 Hydref 2022.

**Bylchau rhwng Presgipsiynau**

Barn ymatebwyr

40. Cyflwynodd un ymatebydd awgrym y dylai "cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar bylchau rhwng presgripsiynau gael eu cynnwys yn y lle priodol yng ngofynion y Contract Unedig fel bod Cymru gyfan yn cydymffurfio â'r gofyniad presennol hwn ac unrhyw newidiadau yn y dyfodol i argymhellion ar fylchau rhwng presgripsiynau”.

Ymateb

Ymdrinnir â’r sylw hwn isod.

**Sicrwydd Contract**

Barn ymatebwyr

41. Roedd gan un ymatebydd bryderon am y nifer cynyddol o feysydd pwysig sy'n symud i Wasanaethau Unedig, gan gynnwys gofal diabetes, dangosyddion clinigol a safonau mynediad, a gallu Bwrdd Iechyd Lleol i gael mynediad at wybodaeth gywir, amserol a chyfredol am gyflawni’r rhannau hynny o’r contract at ddibenion sicrwydd am ofal cleifion a gwerth am arian.

42. Dywedodd ymatebydd hefyd, "O ran y fframwaith sicrwydd contract - dylid egluro'r gofyniad ar y contractwr i gymryd rhan a chydweithredu."

Ymateb

43. Bydd y gofyniad i bractisau ddarparu data ar yr holl ddangosyddion clinigol yn parhau a bydd yn eistedd ochr yn ochr â ffynonellau eraill. Bydd setiau data a rheolau busnes ar gyfer casglu data yn cael eu cynnal gyda'r gofyniad am adrodd blynyddol.  Bydd hyn yn cael ei nodi yn Rheoliadau 2023.

44. Nodir hefyd yn Rheoliadau 2023, ymhlith darpariaethau eraill ynglŷn â'r Fframwaith Sicrwydd Contract, bod rhaid i gontract gynnwys cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol yn y broses a amlinellir yn y Fframwaith Sicrwydd diweddaraf a gyhoeddwyd.

45. Mae trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt i gwblhau'r Fframwaith Sicrwydd Contract.

**Casgliad**

46. Er mai dim ond 8 ymateb a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad anffurfiol, ar y cyfan roedd yr ymatebwyr o'r farn ei fod yn gam cadarnhaol i symleiddio a mireinio'r trefniadau contract presennol ac ailddiffinio'r cynnig craidd y dylai pob practis ei ddarparu.

47. Roedd llawer o'r ymatebion yn cynnwys cwestiynau a cheisiadau am eglurhad yn hytrach nag unrhyw newidiadau i Reoliadau 2023.  Felly, mae'r ymateb hwn yn ceisio egluro'r sefyllfa.

48. Fodd bynnag, cyflwynwyd dau awgrym ynghylch newid i Reoliadau 2023 neu gynnwys testun ynddynt.

Barn ymatebwyr

49. Yn gyntaf, gwnaed cais i newid un o'r gofynion mynediad o 'Sicrhau y gall cleifion a chartrefi gofal archebu presgripsiynau rheolaidd drwy ddatrysiad digidol' i 'sicrhau bod cleifion, fferyllfeydd cymunedol sy'n archebu presgripsiynau ar ran cleifion, a chartrefi gofal yn gallu archebu presgripsiynau rheolaidd drwy ddatrysiad digidol'.

Ymateb

50. Teimlwn fod y newid hwn yn ddiangen gan fod geiriad presennol y Rheoliadau drafft yn datgan –

*"Rhaid i'r contractwr sicrhau bod cleifion a chartrefi gofal yn gallu archebu presgripsiynau amlroddadwy yn ddigidol."*

51. Mae hyn felly yn caniatáu i feddygfa drefnu bod y datrysiad digidol ar gael i eraill gan gynnwys aelod o deulu’r claf neu ei ofalwr. Mater i'r practis yw penderfynu a ddylid caniatáu i unrhyw un heblaw'r claf neu'r cartref gofal gael mynediad.

Barn ymatebwyr

52. Yn ail, awgrym bod "cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar gyfnodau rhagnodi yn cael ei gynnwys yn y lle priodol yng ngofynion y Contract Unedig fel bod Cymru gyfan yn cydymffurfio â'r gofyniad presennol hwn ac unrhyw newidiadau yn y dyfodol i argymhellion ar ragnodi”.

Ymateb

53. Ni fyddwn yn cynnwys yr awgrym hwn yn Rheoliadau drafft 2023 gan fod Rheoliadau 2023 eisoes yn cynnwys darpariaeth sy'n datgan -

Cydymffurfio â deddfwriaeth ac arweiniad

Rhaid i'r contractwr—

(a) cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, a

(b) rhoi sylw i'r holl ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, neu Weinidogion Cymru neu awdurdodau lleol mewn cysylltiad ag arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf.

**Y Camau Nesaf**

54. Bydd Rheoliadau drafft 2023 bellach yn cael eu cwblhau a byddant yn dod i rym ar 1 Hydref 2023.